


# Attendance policy

## Yn yr Ysgol bob dydd
## Dysgu Doniau i'r Dyfodol!

Mae unrhyw absenoldeb o'r Ysgol yn amharu yn fawr ar addysg a chynnydd eich plentyn. Rhaid bod amser o'r Ysgol oherwydd salwch fod yn ddilys. Rhaid i bob plentyn fod yma yn yr Ysgol er mwyn cyrraedd eu llawn botensial

**MAE POB**
**DIWRNOD YSGOL**
**YN CYFRIF**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | 100% | Heb golli unrhyw wersi. |
| | 99% | Colli tua 10 o wersi. |
| | 98% | Colli tua 20 o wersi. |
| | 97% | Colli tua 30 o wersi. |
| **Oren** | 96% | Colli tua 8 diwrnod o ysgol. Bydd yn anodd dal i fyny â'r addysg a gollwyd o tua 40 o wersi. |
| | 95% | Colli tua phythefnos o ysgol. |
| | 93% | Colli tua 14 diwrnod o ysgol. Sef colli bron i dair wythnos o addysg. |
| **Coch** | 92% ac is.<br><br>Colli mwy na thair wythnos o addysg.  Diffyg addysg difrifol a fedrai amharu ar gyflawniad. | |



Mae 190  o ddyddiau statudol Ysgol mewn blwyddyn.  Mae 175 o ddyddiau (penwythnos a gwyliau Ysgol) ar gyfer gwyliau, ac apwyntiadau na fydd yn cael effaith negyddol ar addysg eich plentyn.

Nid oes gan rieni hawl i fynd a'u plant allan o'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau.

Y pennaeth a fydd yn gwneud y penderfyniad ac wrth wneud hynny yn ystyried y ffactorau canlynol:

Adeg o'r flwyddyn

Hyd yr absenoldeb

Canran presenoldeb gyffredinol

Yr effaith ar addysg y plentyn

Os yw canran eich plentyn yn isel ni fydd y gwyliau yn cael ei awdurdodi.



# Prydlondeb

## Prydlondeb

Mae prydlondeb yn ofyniad cyfreithiol ac mae rhaid i blant ddod i'r Ysgol ar amser. Mae cyrraedd yr Ysgol yn hwyr yn cael effaith anwydol ar addysg plentyn ac hefyd yn maharu ar ddisgyblion eraill yn y dosbarth a gydol yr ysgol

# Absenoldeb Awdurdodedig

Absenoldeb awdurdodedig yw pan mae'r Ysgol yn awdurdodi yr absenoldeb.
Gellir awdurdodi absenoldebau am y rhesymau canlynol:

- Salwch
- Arferion Crefyddol
- Apwyntiadau meddygol/deintyddol sydd yn methu cael eu gwneud yn ystod gwyliau/ ar ôl Ysgol
- Gwyliau a gytunwyd gan y Pennaeth

Os ydi eich plentyn yn sâl ffoniwch yr Ysgol ar y diwrnod cyntaf o'r Ysgol erbyn 9.10 ar 01352 770235 neu ebostiwch postterrig@hwbcymru.net

# Absenoldeb Di-awdurdodedig

Absenoldeb di-awdurdodedig yw absenoldeb na wnaeth yr Ysgol ei awdurdodi.
Mae yr absenoldebau yma yn ddi-adurdodedig:

- Cyrraedd yr Ysgol yn hwyr
- Gwyliau na gytunwyd gan y pennaeth
- Diwrnod i ddathlu pen-blwydd neu taith allan
- Rhieni yn disgwyl gweithwyr
- Siopa
- Ddim yn siwr pryd mae Ysgol yn ailgychwyn
- Edrych ar ôl brawd neu chwaer




# Targed Presenoldeb

Mae hi yn ofynnol ein bod yn gosod targed presenoldeb bob blwyddyn, sydd yn cael ei gytun a'r Corff Llywodraethwyr.  Mae'r targedau yn cael eu gosod ynghyd âr Cyngor Sir

Targed ein hysgol ni yw 95%

**Mae 175 o ddiwrnodau sydd ddim yn ddiwrnod ysgol ar gael i wario gyda teulu, ffrindiau, teithiau ac apwyntiadau.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  | |  | |  | |
| 190<br>(360 sesiwn)<br>190 o ddiwrnod ysgol | 180<br>(360 sesiwn)<br>180 o ddiwrnod ysgol | 171<br>(342 sesiwn)<br>171 o ddiwrnod ysgol | 161<br>(322 sesiwn)<br>161 o ddiwrnod ysgol | 152<br>(304 sesiwn)<br>152 o ddiwrnod ysgol | 143<br>(286 sesiwn)<br>143 o ddiwrnod ysgol |
| 100% | 95% | 90% | 85% | 80% | 75% |
| DA<br>Y siawn orau i lwyddo, caiff y plant y cyfle gorau Best chace of success. | | Lle i boeni<br>Llai o gyfle i lwyddo | | Consern<br>Ddim yn degar eich plentyn | |